I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# (LlC21-99)

# Gorchymyn Trwydded Bysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn, sy’n gymwys o ran Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn drwyddedu mewn perthynas â llestrau’r DU a llestrau tramor yn pysgota am gregyn moch gyda photiau ym Mharth Cymru (rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru).

Mae erthyglau 3 i 7 o’r Gorchymyn yn darparu bod angen trwydded i bysgota am gregyn moch ym Mharth Cymru. Mae eithriad yn gymwys ar gyfer llestrau llai na 10 metr o hyd heb ddull gyriant neu lestrau a ddefnyddir ar gyfer hamdden. Gwneir darpariaeth ynghylch yr hawl i wneud cais am drwydded, y broses o wneud cais, a chynnwys, cyfnod parhad a gofynion trwydded.

Mae erthyglau 8 a 9 yn nodi’r dull gweithredu o ran gosod ac addasu’r terfyn dalfa blynyddol. Y terfyn dalfa blynyddol yw cyfanswm cyfunol y ddalfa fwyaf a ganiateir o dan bob trwydded a ddyroddir mewn unrhyw gyfnod trwydded penodol.

Mae erthyglau 10 i 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau y caniateir eu gosod ynghlwm wrth drwydded. Mae erthygl 12 yn darparu ar gyfer gosod amodau hyblyg ar drwydded a oedd yn gosod y terfyn dalfa misol sy’n cyfyngu ar faint o gregyn moch y caniateir eu cymryd mewn mis yn ystod cyfnod trwydded.

Mae erthyglau 13 a 14 yn gwneud darpariaeth ynghylch atal dros dro bysgota a awdurdodir gan bob trwydded wrth ymateb i argyfwng, ac ailddechrau pysgota yn dilyn yr atal dros dro.

Mae erthygl 15 yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd

Asesiad Effaith Rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Is-adran y Môr a Physgodfeydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# (LlC21-99)

# Gorchymyn Trwydded Bysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2021

*Gwnaed* *7 Rhagfyr 2021*

*Yn dod i rym yn unol ag erthgyl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 134A, 134B, 134C(**1**), a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**2**).

Mae gofynion adran 135 a 135(1A)(**3**) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (ymgynghori) wedi eu bodloni.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwydded Bysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Rhagfyr 2021 at ddiben cael a phrosesu ceisiadau am drwydded, ac ar 1 Mawrth 2022 fel arall.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cragen foch" ("*whelk*") yw pysgodyn cragen o'r rhywogaeth *Buccinum undatum*;

ystyr "cyfnod trwydded" ("*permit period*") yw'r cyfnod yn cychwyn ar 1 Mawrth bob blwyddyn

(**1**) Ychwanegwyd adrannau 134A, 134B a 134C at Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 p. 23 gan baragraffau 6 a 17 o Atodlen 10, Rhan 2 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 p. 22 (Ionawr 23, 2021).
(**2**) 2009 p. 23.
(**3**) Ychwanegwyd adran 135(1A) at Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 p. 23 gan baragraff 18(4) o Atodlen 10, Rhan 2 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 p. 22 (Ionawr 23, 2021).

hyd at ddiwedd mis Chwefror y flwyddyn ganlynol;

ystyr “dalfa” (“*catch*”) yw cregyn moch a gymerir ac a gedwir ym mharth Cymru;

ystyr “llestr berthnasol” (“*relevant vessel*”) yw llestr bysgota—

(a) a drwyddedwyd o dan adran 15 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020(**1**); neu

(b) a drwyddedwyd o dan adran 17 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020;

mae “meistr llestr” (“*vessel master*”) mewn perthynas â llestr berthnasol yn cynnwys y person sydd am y tro yn rheoli’r llestr neu’n gyfrifol amdani;

ystyr “parth Cymru” (“*Welsh zone*”) yw rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru;

mae “perchennog” (“*owner*”) yn cynnwys siartrwr;

mae i “rhanbarth glannau Cymru” yr ystyr a roddir i “Welsh inshore region” yn adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009;

mae i “rhanbarth môr mawr Cymru” yr ystyr a roddir i “Welsh offshore region” yn adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009;

ystyr “terfyn dalfa blynyddol” (“*annual catch limit*”) yw’r terfyn ar gyfanswm y cregyn moch y caniateir eu cymryd a’u cadw ym Mharth Cymru gan y cyfanswm cyfunol o lestrau perthnasol a awdurdodir gan drwydded yn ystod cyfnod trwydded o dan erthyglau 8 a 9;

ystyr “terfyn dalfa misol” (“*monthly catch limit*”) yw’r terfyn dalfa o dan erthygl 12;

ystyr “trwydded” (“*permit*”) yw trwydded a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 3.

### Gofyniad am drwydded

**3.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi trwydded o dan y Gorchymyn hwn at ddibenion cadwraeth cregyn moch ym mharth Cymru.

(2) Caniateir dyroddi trwydded—

(a) mewn perthynas ag un cyfnod trwydded; a

(b) mewn perthynas ag un lestr berthnasol.

(3) Ni chaniateir i unrhyw berson gymryd a chadw cregyn moch, neu beri neu ganiatáu neu gynorthwyo yn fwriadol unrhyw berson arall i gymryd a chadw cregyn moch ym mharth Cymru ac eithrio o dan drwydded ac i’r graddau a awdurdodir gan drwydded, ond gweler erthygl 4.

(**1**) 2020 p. 23.

**Esemptiad**

**4.**—(1) Nid oes angen trwydded ar gyfer llestr bysgota—

(a) sy'n llai na 10 metr o hyd ac nad yw'n cael ei gyrru gan injan neu fodur trydan; neu

(b) sy'n cael ei defnyddio yn gyfan gwbl at ddiben pysgota hamdden.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "llestr bysgota" yw unrhyw lestr sydd am y tro yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pysgota môr.

**Personau sydd â hawl i wneud cais am drwydded**

**5.** Ni chaiff neb ond perchennog llestr berthnasol wneud cais am drwydded.

**Gwneud cais am drwydded**

**6.**—(1) Caniateir gwneud cais am drwydded drwy—

(a) cyflwyno i Weinidogion Cymru gais ym mha ffurf bynnag sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru;

(b) darparu copi o'r drwydded i bysgota o dan adran 15 neu 17 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020(**1**); ac

(c) darparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i'w galluogi hwy i benderfynu ar gais, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â—

(i) perchennog y llestr;

(ii) meistr y llestr;

(iii) y llestr.

(2) Caniateir gwneud cais—

(a) mewn cysylltiad â'r cyfnod trwydded sy'n cychwyn ym mis Mawrth 2022, ar 15 Rhagfyr 2021 neu ar ôl hynny;

(b) mewn cysylltiad â chyfnodau trwydded dilynol, ar 1 Rhagfyr neu ar ôl hynny yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'r cyfnod trwydded i fod i gychwyn ynddi.

(3) Pan fo mwy nag un person yn berchen ar lestr berthnasol, mae angen cyflwyno un cais sy'n nodi manylion pob perchennog.

(4) Pan fo ceisydd yn berchen ar fwy nag un llestr berthnasol, mae angen cyflwyno cais ar wahân ar gyfer pob llestr.

---

(**1**) 2020 p. 23.

**Telerau trwydded**

**7.**—(1) Mewn perthynas â thrwydded—

(a) nid yw'n awdurdodi neb ond y personau a ganlyn i gymryd a chadw cregyn moch ym mharth Cymru—

(i) deiliad y drwydded;

(ii) meistr y llestr (os oes un);

(iii) y siartwr (os oes un);

(b) nid yw'n awdurdodi unrhyw ddull o bysgota am gregyn moch ond defnyddio pot;

(c) nid yw'n awdurdodi unrhyw lestr ond y llestr berthnasol a nodir yn y drwydded;

(d) ni chaniateir ei throsglwyddo;

(e) caniateir iddi gynnwys amodau sy'n ymwneud â chymryd a chadw cregyn moch ym mharth Cymru;

(f) caniateir ei dyroddi ar ffurf ddyblyg i holl gydberchnogion llestr berthnasol yn achos rhanberchnogaeth o'r llestr berthnasol;

(g) caniateir ei dyroddi ar ffurf electronig.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "pot" yw unrhyw bot, unrhyw grùl, unrhyw drap neu unrhyw gawell a ddefnyddir i bysgota am gregyn moch.

**Terfyn dalfa blynyddol ar gyfer cyfnod trwydded cyn 2027**

**8.**—(1) Y terfyn dalfa blynyddol ar gyfer pob cyfnod trwydded a grybwyllir ym mharagraff (2) yw 5298 o dunelli, ond gweler paragraffau (3), (4) a (5) sy'n ymwneud â gosod neu addasu'r terfyn dalfa blynyddol.

(2) Y cyfnodau trwydded a grybwyllir ym mharagraff (1) yw'r cyfnodau sy'n dechrau ag—

(a) 1 Mawrth 2022;

(b) 1 Mawrth 2023;

(c) 1 Mawrth 2024;

(d) 1 Mawrth 2025; ac

(e) 1 Mawrth 2026.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru addasu'r terfyn dalfa blynyddol a grybwyllir ym mharagraff (1) ar sail data sy'n ymwneud â maint y cregyn moch, ond gweler paragraffau (4) a (5).

(4) Mewn perthynas â'r cyfnodau trwydded a grybwyllir yn is-baragraffau (d) ac (e) o baragraff (2), caiff Gweinidogion Cymru, yn ogystal, addasu'r terfyn dalfa blynyddol ar sail—

(a) data dalfeydd sy'n ymwneud â helaethrwydd y cregyn moch;

(b) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(5) Mewn perthynas â'r cyfnodau trwydded a grybwyllir yn is-baragraffau (b) i (e), os yw'r ddalfa flynyddol yn fwy na'r terfyn dalfa blynyddol mewn unrhyw gyfnod trwydded, caniateir gosod didyniad i'r terfyn yn y cyfnod trwydded dilynol i wneud iawn am faint yn fwy na'r terfyn blynyddol oedd y ddalfa.

**Terfyn dalfa blynyddol ar gyfer cyfnod trwydded o 2027 ymlaen**

**9.**—(1) Mewn perthynas â'r cyfnod trwydded sy'n cychwyn ar 1 Mawrth 2027 ac ar gyfer pob cyfnod trwydded dilynol bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r terfyn dalfa blynyddol yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Bydd Gweinidogion Cymru, cyn dechrau'r mis Rhagfyr cyn pob cyfnod trwydded o gyfnod trwydded 2027 ymlaen, yn cyhoeddi adroddiad yn pennu'r terfyn dalfa blynyddol ar gyfer y cyfnod dilynol (gweler paragraff 5).

(3) Wrth bennu'r terfyn dalfa blynyddol bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) data gwyddonol a data arolygon;

(b) data dalfeydd a data glaniadau;

(c) unrhyw gyngor gan sefydliadau gwyddonol perthnasol;

(d) unrhyw sylwadau o'r ymgynghoriad a grybwyllir ym mharagraff (4);

(e) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(4) Bydd Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r adroddiad a grybwyllir ym mharagraff (2), yn ymgynghori â—

(a) deiliaid trwyddedau; a

(b) unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r adroddiad a grybwyllir ym mharagraff (2) ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall y byddant yn ei hystyried wrth bennu'r terfyn dalfa blynyddol o dan baragraff (3) ar wefan Llywodraeth Cymru.

(6) Mewn perthynas â chyfnod trwydded, os oedd y ddalfa flynyddol yn fwy na'r terfyn dalfa blynyddol yn y cyfnod trwydded blaenorol, caniateir gosod didyniad i'r terfyn yn y cyfnod trwydded dilynol i wneud iawn am faint yn fwy na'r terfyn oedd y ddalfa flynyddol.

**Amodau trwydded**

**10.**—(1) Rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio â'r amodau ym mharagraff (2) ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth drwydded o dan erthyglau 11 a 12.

(2) Mae'n amod trwydded—

(a) bod rhaid i ddeiliad trwydded hysbysu Gweinidogion Cymru os yw'r manylion sy'n ymwneud â'r llestr berthnasol yn newid ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod trwydded;

(b) bod rhaid i unrhyw gragen foch a gymerir ac a gedwir fod yn gragen foch gyfan yn ei chragen.

**11.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru osod ynghlwm wrth drwydded amodau sy'n ymwneud ag—

(a) gofynion o ran gwybodaeth, gan gynnwys—

(i) data dalfeydd;

(ii) data ystadegol;

(iii) amodau ynghylch cywirdeb y data;

(b) terfynau dalfa misol hyblyg (gweler erthygl 12);

(c) unrhyw fesurau a nodir o ganlyniad i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(**1**) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017(**2**);

(d) gosod cyfarpar penodedig mewn llestr berthnasol;

(e) unrhyw fesur yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol at ddiben cadwraeth cregyn moch.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru addasu neu ddileu amod trwydded.

(3) Bydd Gweinidogion Cymru, cyn gosod amod ynghlwm wrth drwydded o dan baragraff (1) neu addasu neu ddileu amod o dan baragraff (2), yn ymgynghori ag—

(a) deiliaid trwydded; a

(b) unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(4) Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r personau a ganlyn ynghylch penderfyniad o dan baragraff (1) i osod amod ynghlwm wrth drwydded neu benderfyniad o dan baragraff (2) i addasu neu ddileu amod trwydded—

(a) deiliaid trwydded; a

---

(**1**) 2017 Rhif 1012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 Rhif 579. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 2017 Rhif 1013 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 Rhif 579. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(b) unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Bydd hysbysiad o dan baragraff (4) yn cynnwys y rhesymau dros benderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraffau (1) a (2).

**Amod terfyn dalfa misol hyblyg**

**12.**—(1) Mae faint o gregyn moch y gellir eu cymryd a'u cadw yn ddarostyngedig i derfyn dalfa—

(a) ar gyfer pob mis yn ystod cyfnod trwydded;

(b) mewn cysylltiad â phob llestr berthnasol a awdurdodir gan drwydded

yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddyrannu terfyn dalfa misol o faint y maent yn ystyried ei fod yn briodol i bob llestr berthnasol a awdurdodir gan drwydded yn ystod cyfnod trwydded yn unol â pharagraffau (3) a (4).

(3) Rhaid dyrannu'r terfyn dalfa misol y cyfeirir ato ym mharagraff (2) fel bod pob llestr berthnasol a awdurdodir gan drwydded yn ddarostyngedig i'r un terfyn dalfa.

(4) Wrth bennu'r terfyn dalfa misol o dan baragraff (3) caiff Gweinidogion Cymru ystyried—

(a) data dalfeydd yn y cyfnod trwydded cyfredol;

(b) data dalfeydd hanesyddol;

(c) patrymau gweithgarwch pysgota;

(d) y terfyn dalfa blynyddol, gan gynnwys pa un a yw'r ddalfa flynyddol yn debygol o fod yn fwy na'r terfyn dalfa blynyddol;

(e) unrhyw addasiadau i'r terfyn dalfa blynyddol pan fydd pysgota yn ailddechrau o dan erthygl 14.

**Atal pysgota dros dro**

**13.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro bysgota a awdurdodir gan bob trwydded—

(a) pan fônt yn ystyried nad yw defnyddio cregyn moch ym mharth Cymru yn gynaliadwy; neu

(b) mewn argyfwng.

(2) Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r personau a ganlyn ynghylch unrhyw atal dros dro o dan baragraff (1)—

(a) deiliaid trwydded; a

(b) unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Bydd hysbysiad o dan baragraff (2) yn cynnwys y rhesymau dros benderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1).

### Ailddechrau pysgota yn dilyn atal dros dro

**14.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu y caniateir ailddechrau pysgota yn dilyn eu penderfyniad i atal pysgota dros dro o dan erthygl 13, caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r terfyn dalfa blynyddol blaenorol a bennwyd o dan erthyglau 8 neu 9 a phennu'r terfyn dalfa misol gan ystyried—

(a) data gwyddonol neu ddata dalfeydd;

(b) unrhyw gyngor gan sefydliadau gwyddonol perthnasol; ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r personau a ganlyn ynghylch eu penderfyniad o dan baragraff (1)—

(a) deiliaid trwydded; a

(b) unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Bydd hysbysiad o dan baragraff (2) yn cynnwys y rhesymau dros benderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1).

### Ffioedd

**15.**—(1) Mae ffi flynyddol am drwydded mewn cysylltiad â'r cyfnod trwydded sy'n cychwyn ym mis Mawrth 2023 ac mewn cysylltiad â chyfnodau trwydded dilynol i'w chodi mewn cysylltiad â phob trwydded.

(2) Pennir y ffi am drwydded gan Weinidogion Cymru.

(3) Cyn pennu'r ffi flynyddol, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â deiliaid trwydded ac unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y ffi arfaethedig mewn perthynas ag—

(a) y cyfnod trwydded sy'n cychwyn ar 1 Mawrth 2023; a

(b) pob cyfnod trwydded dilynol.

(4) Mae'r materion y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori arnynt yn cynnwys;

(a) y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r ffi; a

(b) swm y ffi.

(5) Wrth bennu'r ffi flynyddol bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) gwariant sy'n codi o reoli'r bysgodfa cregyn moch;

(b) gwariant sy'n codi o unrhyw arolygon gwyddonol mewn cysylltiad â'r bysgodfa cregyn moch;

(c) gwariant sy'n codi o weinyddu'r trwyddedau;

(d) gwariant sy’n codi o brosesu data deiliaid trwydded sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru;

(e) gwariant sy’n codi o unrhyw ddadansoddiad o ddata glaniadau a data gwerthiant;

(f) yr ymatebion o unrhyw ymgynghoriad o dan baragraff (4);

(g) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn berthnasol i’r ffi arfaethedig.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
7 Rhagfyr 2021